Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol

Teitl

Adolygiad o'r Deddf (Iawndal) Terfysg 1886

Diben a Bwriad Arfaethedig y Mesur

(i) Amcan – Ymgynghori â budd-ddeiliad allweddol ar yr opsiynau a drafodir yn yr adolygiad o'r Deddf (Iawndal) Terfysg 1886.

(ii) Cefndir – Dan y Ddeddf mae awdurdodau heddlu yng Nghymru a Lloegr yn gyfrifol am dalu am ddifrod i adeiladau a'u cynnwys pan fydd terfysg wedi digwydd. Yn dilyn y terfysgoedd yng ngogledd Lloegr yn ystod haf 2001 aed ati i gynnal adolygiad i ganfod a yw'r Ddeddf yn parhau'n berthnasol yng nghyd-destun plismona modern.

(iii) Asesiad Risg – Mae'n anodd mesur yn union beth fydd yr effaith ariannol o newid y Ddeddf. Mae terfysgoedd yn dal i fod yn ddigwyddiadau cymharol brin. Yn yr 8 mlynedd diwethaf cafwyd 2 achos o derfysg yn 1995, 5 yn ystod haf 2001 ac 1 yn 2002. Mae'n anodd rhagweld lle a phryd y bydd terfysgoedd yn digwydd, a faint o ddifrod a achosir ganddynt. Ansicr ar y gorau yw digwyddiadau'r gorffennol fel canllaw i fesur risgiau'r dyfodol. Mae'r asesiad hwn yn dibynnu'n fawr ar ddata hanesyddol a gasglwyd am daliadau a wnaed gan awdurdodau'r heddlu ers 1995 fel hawliadau (gweler atodiad A). Er hynny, mae rhai ceisiadau yn parhau i gael eu trafod ac nid yw'r ffigurau o'r costau'n adlewyrchu'n llawn y difrod yn sgîl terfysg yn ystod y cyfnod dan sylw.

Opsiynau

Opsiwn 1 Cadw'r Ddeddf heb ei newid

Opsiwn 2 Diddymu'r Ddeddf yn llwyr

Opsiwn 3 Diwygio'r Ddeddf i gyfyngu ar atebolrwydd am hawliadau

Manteision

Mantais **opsiwn 1** yw y byddai sicrwydd wrth gefn o hyd a modd i fusnesau a effeithir gan ddifrod yn sgîl terfysg wneud cais am iawndal gan awdurdod yr heddlu.

Yn ôl **Opsiwn 2** ni fyddai awdurdodau'r heddlu bellach yn gyfrifol am hawliadau am ddifrod yn sgîl terfysg. Mae budd posibl i'r diwydiant yswiriant pe byddai yswiriant am ddifrod yn sgîl terfysg ar gael yn fasnachol.

Byddai **Opsiwn 3** yn cyfuno'r manteision dan opsiwn 1 a 2. Byddai'n parhau i gynnig rhyw gymaint o iawndal ariannol i fusnesau a effeithir gan ddifrod yn sgîl terfysg, gan gyfyngu ar atebolrwydd awdurdodau'r heddlu.

5. Costau

Dan **opsiwn 1**, er mwyn cadw'r Ddeddf fel ag y mae, ni fyddai unrhyw gostau newydd nac ychwanegol i fusnesau, y sector gwirfoddol nac elusennau. Mae'r gost bosibl i'r sector cyhoeddus heb ei chyfyngu, yn dibynnu ar faint y difrod, a maint unrhyw derfysg(oedd) yn y dyfodol. Ar sail dadansoddiad hanesyddol o hawliadau ers 1995 mae'n bosibl dangos bod gwerth hawliadau a gafodd eu setlo gan awdurdodau'r heddlu yn yr 8 mlynedd diwethaf wedi bod ychydig o dan £1 miliwn. Mae pedwar o'r 7 achos o derfysg wedi effeithio ar un awdurdod heddlu: - Gorllewin Swydd Efrog (West Yorkshire).

Dan **opsiwn 2** mae elfen o'r risg sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i'r sector cyhoeddus yn cael ei drosglwyddo i fusnesau. Allan o'r hawliadau a wnaed ers 1995, roedd oddeutu 90% ohonynt o'r sector busnesau bach. A rhoi hyn yn ei gyd-destun, ers 1995, mae 86 o fusnesau wedi gwneud ceisiadau am ddifrod yn sgîl terfysg allan o amcangyfrif o 3.4 miliwn o fusnesau bach yn Lloegr a Chymru.[1] Mae'r rhan fwyaf o daliadau wedi bod yn gymharol fychan o ran arian – yn amrywio o £500 i £7,000 – yn y rhan fwyaf o achosion i gynnwys costau ail-wydro. Ond mae'n amhosibl asesu, o'r data hanesyddol cyfyngedig sydd ar gael, arwyddocâd y taliadau hyn o ran hyfywedd y busnesau a effeithiwyd. Nid yw'n glir, pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei weithredu, a fyddai busnesau yn gallu lleihau risg drwy yswiriant masnachol ac os felly, beth fyddai cost hynny. Gobeithir y bydd y broses ymgynghori yn help i gael eglurder ynglŷn â'r materion hyn.

Dan **opsiwn 3** bydd risg yn cael ei drosglwyddo i fusnesau drwy bennu uchafswm ar gyfer ar hawliadau ond ni ellir mesur costau oherwydd ni ddaethpwyd i gonsensws ynghylch uchafswm priodol ar gyfer hawliad neu fecanwaith i hyn. Byddai pennu uchafswm o 50% ar werth yr hawliadau a wnaed ers 1995 wedi lleihau taliadau a wnaed hyd yma o oddeutu £0.5 miliwn.

Ymgynghori â busnesau bach: Prawf Effaith ar y Busnesau Bach

Mae'r Gwasanaeth Busnesau bach wedi edrych ar y ddogfen ymgynghorol gychwynnol ac yn dilyn ymgorffori nifer o'u pryderon yn opsiwn 3, maent yn fodlon i'r ymgynghori fynd rhagddo. Rydym yn cydlynu ymhellach â hwy i sicrhau yr ymgynghorir â sectorau busnesau bach.

Asesiad Cystadleuaeth

Mae didolwr cystadleuaeth wedi'i gwblhau ar gyfer yr opsiynau, lle bo angen. Mae'n dangos na fyddai'r opsiynau arfaethedig yn debygol o effeithio ar y broses gystadleuol.

Gorfodaeth a Sancsiynau

Dan opsiwn 1 ni fyddai angen unrhyw orfodaeth er mwyn cadw'r Ddeddf ar ei ffurf bresennol. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer opsiwn 2. Mae'n

[1] Ffynhonnell: Gwasanaeth Busnesau Bach.

bosibl yr effeithir ar opsiwn 3 gan ddeddfwriaeth eilaidd. Pe bai opsiwn 3 yn ddymunol yn dilyn yr ymgynghori, yna byddwn yn edrych ar hyn yn ymhellach.

Monitro ac Adolygu

Bydd cynllun i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd unrhyw newid yn cael ei roi ar waith yn dilyn ymgynghori cyhoeddus pan fydd dewis opsiwn wedi'i bennu.

Ymgynghori

(i) O fewn y Llywodraeth

Adran yr Arglwydd Ganghellor
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Senedd yr Alban
Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog
Trysorlys ei Mawrhydi
Y Swyddfa Gartref
Y Swyddfa Gymreig
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
Yr Adran Iechyd
Yr Adran Masnach a Diwydiant (Gwasanaeth Busnesau Bach)

(ii) Ymgynghori Cyhoeddus

Mae budd-ddeiliaid sydd wedi'u hadnabod ar gyfer cymryd rhan yn y broses o ymgynghori cyhoeddus i'w gweld ym mharagraff 35 o'r ddogfen ymgynghori. Mae'r rhestr yn cynnwys Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, cynrychiolwyr o'r diwydiant yswiriant a'r gymuned fusnes yn ehangach.

Ni yw'r rhestr hon yn derfynol ac mae rôl y gwasanaeth busnesau bach o ran adnabod cysylltiadau pellach yn cael ei archwilio.

Crynodeb ac Argymhelliad

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol hwn yn adnabod y trosglwyddir risg o'r sector cyhoeddus i fusnesau dan opsiynau 2 a 3. Mae yna hefyd y posibilrwydd o gyfle busnes i'r diwydiant yswiriant trwy ddatblygu marchnad fasnachol mewn yswiriant am ddifrod yn sgîl terfysg. Mae'n anodd mesur y costau a'r risgiau i fusnesau ar hyn o bryd. Dylai'r broses o ymgynghori fod o gymorth wrth baratoi sail o ran tystiolaeth ar gyfer yr opsiynau a nodwyd yn yr adolygiad.